OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 944 (Cy. 123)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Sanclêr i Fan i'r Gorllewin o Ros-goch, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr - Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Sanclêr i Fan i'r Gorllewin o Ros-goch, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw:

i. y darn o gefnffordd yr A477 i'r gorllewin o Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt sydd 93 o fetrau i'r de-orllewin o

ganolbwynt ei chyffordd â'r U6611 sy'n arwain at Backe, am bellter o 1014 o fetrau;

ii. y darn o gefnffordd yr A477 i'r gorllewin o Ros-goch yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt sydd 479 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4314 i Dafarn-sbeit, am bellter o 1405 o fetrau.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, yn ystod cyfnod y gwaith, ni chaiff neb ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd ar adegau y bydd y cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 ar waith.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Mawrth 2012

***G R Morgan***

**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.